**CYNGOR TREF PORTHMADOG**

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023– 2024



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Tud 3 | Croeso |
| Tud 4 a 5 | Ardal Porthmadog |
| Tud 6 | Cyfrifoldebau |
| Tud 7,8,9 | Cae Pawb |
| Tud 11 | Bryn Coffa |
| Tud 11 | Cae Chwarae Bodawen |
| Tud 12 | Aelodau Cyngor Tref Porthmadog |
| Tud 13 | Staff a Chyfarfodydd y Cyngor |
| Tud 14 | Gwefan y Cyngor ac Aelodaeth Allanol |
| Tud 15 | Cyllid a Gwariant Atebolrwydd |
| Tud 16 | Mantolen 2023 – 2024 |
| Tud 17,18 | Ffurflen Flynyddol 2023 – 2024 |
| Tud 18 | Cyfraniadau |
| Tud 19 | Materion Polisi |
| Tud 19,20 | Codi Materion gyda Chyngor Gwynedd ac Asiantiaethau eraill |
| Tud 20,21 | Clwb Ieuenctid |
| Tud 21 | Premier Inn |
| Tud 21 | Ceisiadau Cynllunio |
| Tud 22 | Diffibrilwyr |
| Tud 22,23,24 | Gweithgor Datblygu |
| Tud 24,25,26 | Plannu Coed |
| Tud 27,28 | Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023 |
| Tud 29,30,31, 32 | Cynlluniau ar gyfer y dyfodol |

# Croeso

Mae ardal Cyngor Tref Porthmadog yn cynnwys tref Porthmadog ei hun yn ogystal â phentrefi Borth-y-Gest, Morfa Bychan, Pwllgoleulas a Thremadog.

Codwyd Tremadog ar dir a gipiwyd o'r môr ar ôl i William Alexander Madocks gwblhau'r morglawdd neu'r Cob dros aber Afon Glaslyn neu'r Traeth Mawr yn 1811. Tyfodd Porthmadog wedyn yn sgil datblygu diwydiant llechi Blaenau Ffestiniog fel porthladd ar gyfer allforio'r garreg las i bedwar ban byd. Yn ystod y cyfnod hwn hefyd roedd Porthmadog a Borth-y-Gest yn ganolfannau adeiladu llongau masnach o bwys.

Cyrchfan boblogaidd i ymwelwyr yw'r ardal erbyn hyn wrth iddynt heidio am draethau godidog Bae Tremadog neu am fynyddoedd a chlogwyni heriol Eryri. Mae yma amrwyiaeth o lety yn ogystal â bwytai a thafarndai sy'n cynnig prydau diddorol, blasus a fforddiadwy.

Bro Gymraeg yw Porthmadog gyda'r iaith a'r diwylliant yn greiddiol i'w hunaniaeth. Dyma fu cartref Eifion Wyn a William Jones Tremadog, Alltud Eifion - a Percy Bushe Shelley hefyd yn ei dro. Bu Twm o'r Nant yn troedio'r ardal a dyma fan geni Thomas Edward Lawrence o Arabia a'r tenor adnabyddus, Rhys Meirion.

Mae Porthmadog wedi'i gefeillio â thref Wiclo (Cill Mhantáin) yn Iwerddon.

Felly dewch i ardal Porthmadog i brofi ein diwylliant unigryw, ein hanes cyffrous a'r golygfeydd ysblennydd. Chewch chi mo'ch siomi.





# Ardal Porthmadog

Disgrifiad o'r ardal sy'n cael ei chynrychioli gan y Cyngor.

Mae ardal Cyngor Tref Porthmadog yn cynnnwys tref Porthmadog ei hun yn ogystal â phentrefi Borth-y-Gest, Morfa Bychan, Pwllgoleulas a Thremadog.

Mae Porthmadog a Thremadog yn drefi cymharol newydd ac roedd 2011 yn flwyddyn bwysig wrth i'r ardal ddathlu dauganmlwyddiant adeiladu'r Cob enwog gan William Alexander Madocks.



Tref harbwr yw Porthmadog ac mae'r ardal yn gyrchfan twristaidd boblogaidd. Mae miloedd yn heidio yma bob blwyddyn, boed i ymweld â'r traethau a'r mynyddoedd, i fwynhau'r siopau a'r bwytai amrywiol, neu i gael blas ar yr hanes diwylliannol a diwydiannol cyfoethog sy'n perthyn i'r ardal.

Yr harbwr yw canolbwynt Porthmadog. Oni bai am yr harbwr ni fyddai Porthmadog yn bod fel tref. Yn ei ddydd roedd yr harbwr yn ferw o weithgaredd fel porthladd prysurau'r byd am allforio llechi ac fel cartref i'r diwydiant adeiladu llongau ddatblygodd yn ei sgil. Heddiw llongau pleser sydd wedi angori yn harbwr Porthmadog ac mae yna dawelwch hyfryd i'w gael o droedio ar hyd y cei gan ddychmygu'r prysurdeb a fu a'r ffyniant ddeilliodd o hynny. Mae ymweliad â'r Amgueddfa Fôr gerllaw yn gyfle i ail-fyw'r gorffennol a dysgu mwy am hanes morwrol unigryw harbwr Porthmadog.

Mae'r iaith Gymraeg yn iaith fyw ac yn rhan bwysig o ddiwylliant a hunaniaeth trigolion Porthmadog a'r ardal.

Mae tref Porthmadog wedi gefeillio â thref Wiclo yn Iwerddon. Gefeillwyd Porthmadog â Wiclo yn 2006 pan arwyddwyd siarter o gyfeillgarwch a chydweithio rhwng cynghorau'r ddwy dref. Mae'r siarter i'w gweld yn Y Ganolfan ym Mhorthmadog ac yn Neuadd y Dref yn Wiclo. Ers hynny bu mynych ymweliadau rhwng y ddwy dref wrth i gorau, bandiau ac amrwyiol gymdeithasau deithio'n ôl ac ymlaen dros Fôr Iwerddon gan greu cysylltiadau a chyfarfod â ffrindiau hen a newydd. Mae Clybiau Hwylio'r ddwy dref yn gyfarwydd â'i gilydd ers blynyddoedd ac mae'r cysylltiad wnaed rhwng Gwasanaethau Tân Porthmadog a Wiclo yn un o lwyddiannau mawr y gefeillo.

Ewch i **[www.porthmadog.co.uk](http://www.porthmadog.co.uk)** i gael golwg ar arweinlyfr Porthmadog ac i gael mwy o wybodaeth am y dref.







# Cyfrifoldebau

Cynhelir cyfarfodydd Cyngor Tref Porthmadog fel arfer ar yr ail ddydd Mawrth o bob mis yn Ystafell Glaslyn, y Ganolfan, Porthmadog am 19:00. Mae cyfarfodydd y Pwyllgor Llawn yn cael eu cynnal yn rhithwir ar Microsoft Teams. Mae'r cyfarfodydd hyn yn agored i'r cyhoedd a chyhoeddir y Rhaglen ar gyfer y cyfarfodydd ar wefan y Cyngor, yn yr hysbysfwrdd y tu allan i'r Ganolfan ac yn yr hysbysfwrdd ger y Parc. Anogir y cyhoedd i gysylltu â'r Cyngor gyda'u sylwadau neu pryderon ac mae'r Cyngor yn credu ei bod hi'n hanfodol cael perthynas dda gyda'r etholwyr.

Mae Cyngor Tref Porthmadog yn gyfrifol am ddarparu amrywiaeth o wahanol wasanaethau o fewn yr ardal y mae'n ei gynrychioli ac yn gweithredu yn agored a thryloyw er budd ac ar ran y gymuned gyfan.

Rhai o gyfrifoldebau Cyngor Tref Porthmadog yw**:**

- Gosod y praesept, sef y dreth ddomestig sy'n cael ei ddosbarthu i'r Cyngor Tref bob blwyddyn.
- Cyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio sy'n cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio.
- Cynnal a chadw ein tiroedd a'n heiddo sef Cae Pawb, Bryn Coffa, Cae Chwarae Bodawen a'r llwybrau cyhoeddus sy'n dod o dan gyfrifoldeb Cyngor Tref Porthmadog.
- Mae Cyngor Tref Porthmadog yn gweithio mewn partneriaeth gyda grwpiau cymunedol a gwirfoddol er lles yr amgylchedd, yr amgylchfyd a'r gymuned.

Mae gan Gyngor Tref Porthmadog yr is bwyllgorau canlynol :
Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol a Phwyllgor Eiddo. Maent yn cyfarfod 4 gwaith y flwyddyn.
Mae'r Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol yn trafod bob agwedd o waith ariannol y Cyngor Tref gan archwilio'r cyfrifon, holi'r Clerc am wariant a derbyniadau a gwneud argymhellion am arbedion. Bydd y Pwyllgor yn ystyried Cyflog y Clerc yn flynyddol yn unol â'i chytundeb gwaith a gwneud argymhellion i'r Cyngor llawn. Maent yn monitro gwariant ac incwm gan wneud argymhellion ar gyfer trafodaethau llawn ar osod lefel y Preasept yn flynyddol. Yn achlysurol byddant hefyd yn trafod ceisiadau cynllunio sydd â dyddiad cau cyn cyfarfod llawn o'r Cyngor ac unrhyw fater ariannol arall sydd angen sylw.

Mae'r Pwyllgor Eiddo yn trafod holl agweddau eu cyfrifoldebau ynglŷn â chynnal a chadw'r eiddo canlynol:
Cae Chwarae Bodawen, Bryn Coffa (Cofeb y ddau Ryfel Byd), Cerflun Mr Madocks, llwybrau'r ardal maent yn gyfrifol amdanynt, y llochesi bws maent yn gyfrifol amdanynt a Rhandiroedd Cae Pawb.

# Cae Pawb







Rhandiroedd Cyngor Tref Porthmadog yw Cae Pawb a leolir ym mhen ddwyreiniol Stryd Wesla ar y ffordd i weithfydd Rheilffordd Ucheldir Eryri heibio i Siop Darlun ac ar y chwith wrth safle Dŵr Cymru.

Yn sgil ymchwilio i hanes Cae Pawb canfuwyd bod y tir wedi cael ei brynu gan Y Cyngor Tref am £315 mewn arwerthiant o diroedd Stâd Tremadog yn 1921. Bu’n rhaid cael benthyciad gan y Weinyddiaeth Iechyd er mwyn ei brynu fel gerddi llysiau ar gyfer trigolion Porthmadog

Hanner cant a thri o randiroedd sydd yng Nghae Pawb gyda phob un wedi ei osod. Neulltuir y rhandiroedd i drigolion dalgylch y Cyngor Tref sef Cod Post LL49.

£20 ydi rhent blynyddol am randir a chesglir  £3 yn ychwanegol at gostau torri gwair a cynnal a chadw’r safle.

Mae yna bwyllgor o denantiad, Pwyllgor Rhandiroedd Cae Pawb, sydd yn gofalu am y safle.

Os  dymunwch fod ar y rhestr aros, cysylltwch â'r clerc ar **clerccyngtreport@gmail.co**

Mae rhandiroedd Cae Pawb wedi cael sylw yn ddiweddar yn sgil rhaglen deledu S4C Garddio a Mwy. Gwahoddwyd un o denantiaid mwyaf cynhyrchiol Cae Pawb, gŵr ifanc o'r enw Rhys Rowlands, fel gwestai a chyflwynydd rheolaidd ar y rhaglen a bu'n llwyddiannus iawn yn rhannu ei wybodaeth helaeth ac yn arddangos ei sgiliau garddio mewn dull naturiol a phroffesiynol iawn.









Ar Fedi 18 2022 cynhaliwyd diwrnod agored yng Nghae Pawb er mwyn codi arian i Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023 ac i Gymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb. Roedd yn gyfle i'r tenantiaid i agor eu gerddi i'r cyhoedd er mwyn  dangos ffrwyth eu llafur. Gosodwyd byrddau gwerthu cynnyrch wrth y fynedfa a chasglwyd dros £400 ar y diwrnod. Mae'r fwriad gan Gymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb gynnal diwrnod agored yn flynyddol.



## Grantiau

Bu  Cymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb yn llwyddiannus yn eu cais am grant gan Gronfa Rhandiroedd Cyngor Gwynedd. Derbyniwyd grant o £1,475.88 a defnyddiwyd yr arian ar gyfer gosod postyn giât newydd; cerrig mân i wella'r ffordd i mewn i'r safle;gwrtaith; a stanciau pren ar gyfer ffensio ymhlith pethau eraill.
Derbyniodd Gymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb gyfraniad ariannol o £250.00 gan Gyngor Tref Porthmadog ym mis Ebrill 2024.

# Bryn Coffa








Cofgolofn Tref Porthmadog i'r rhai a gollodd eu bywydau yn y ddau Ryfel Byd yw Bryn Coffa. Mae'r Groes i'w gweld yn glir uwchlaw'r ffordd ar Ynys Galch wrth deitho o Porthmadog i gyfeiriad Tremadog ger Ysgol Eifionydd.

Rhoddwyd y golofn  yn rhodd i'r dref gan deulu o Borthmadog a gollodd fab yn y Rhyfel Mawr. Yma cynhelir gwasanaeth Sul y Cofio bob blwyddyn.

Yn ddiweddar gosodwyd canllaw ar y llwybr at y gofeb a rhoddwyd concrid ar ei wyneb.






Ar y wal ger gwaelod y grisiau ceir côd QR sydd yn rhoi mynediad i chi i historypoints.org lle ceir manylion am hanes y safle yn ogystal â manylion am y dynion lleol a gollodd eu bywyd yn ystod y ddau Ryfel Byd.

.

# Cae Chwarae Bodawen








Prynwyd Cae Chwarae Bodawen gan Gyngor Tref Porthmadog yng nghanol y saithdegau ac fe fuddsoddir yn rheolaidd ar y cyfarpar chwarae yno – gan gynnwys darpariaeth chwarae ar gyfer plant ag anableddau. Fe archwilir y safle a'r offer chwarae yn flynyddol gan gwmni G.L.Jones, Bethesda a bydd y Cyngor Tref yn gweithredu ar unrhyw argymhellion ganddynt i wella cyflwr a diogelwch yr offer. Ym mis Mehefin 2023 cafodd yr offer chwarae ei adnewyddu gyda chôt o baent coch a gwyrdd.

Yng Nghae Chwarae Bodawen mae Meini Gorsedd y Beirdd a osodwyd yno ar gyfer seremonïau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Bro Madog a gynhaliwyd ar gyrion y dref ym 1987.



Yn anffodus rhagwelir y bydd y cae chwarae yn gorfod cau am gyfnod yn y blynyddoedd i ddod. Oherwydd cynllun hir-dymor y National Grid i atgyfnerthu'r rhwydwaith rhwng Pentir a Thrawsfynydd, o 2025 ymlaen bydd rhan helaeth o'r cae yn cael ei gloddio er mwyn gosod ceblau trydan newydd. Bydd hyn yn amharu ar fynediad y cyhoedd i'r cae a bydd yr offer chwarae yn cael ei ddatgymalu a'i dynnu i lawr. Mae'r Cyngor Tref yn ffyddiog y bydd National Grid yn gosod offer chwarae newydd a gwell yn y cae a giât newydd wrth y fynediad unwaith bydd y gwaith wedi ei gwblhau.

Hawlfraint Lluniau:
Prif Llun Harbwr Porthmadog: Ken Bagnall
Llyn Bach: Kenneth Allen, Graig Ddu: Chris Carlson, Harbwr Borth Y Gest: David Medcalf, Gist Gerrig: Dewi, Harbwr Porthmadog: Alan Fryer,
Stryd Fawr, Porthmadog: John Lucas, Stryd Fawr, Porthmadog: Eric Jones, Tremadog: Eric Jones

# Aelodau

**CYNGHORWYR CYNGOR TREF PORTHMADOG**
**Gorffennaf 2023**

**Ward Gymuned Porthmadog – Tremadog**

1. Cynghorydd Aled Griffith (Cadeirydd)
2. Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Is-Gadeirydd)
3. Cynghorydd Sandra Bodden Jones

**Ward Gymuned Porthmadog – Gêst**

1. Cynghorydd Dr Melfyn Edwards
2. Cynghorydd John Gwynedd Roberts

**Ward Gymuned Porthmadog – Gorllewin**

1. Cynghorydd Llywelyn Rhys
2. Cynghorydd Michael Roberts
3.

**Ward Gymuned Porthmadog – Ynys Galch**

1. Cynghorydd Carol Hayes
2. Cynghorydd Gwilym Jones ( hefyd yn Gynghorydd Sir)
3.

**Ward Gymuned Porthmadog – Dwyreiniol**

1. Cynghorydd Llinos Murphy
2.
3.
4.


**Ward Gymuned Porthmadog – Morfa Bychan**

1. Cynghorydd Connor Westwood

# Gweithwyr

Clerc a Swyddog Priodol Ariannol presennol Cyngor Tref Porthmadog yw Marian Roberts. Mae'r Clerc yn gweithio yn rhan amser, 24 awr yr wythnos.

Dyma'r manylion cysylltu :-



| | |
|---|---|
| e-bost | clerccyngtreport@gmail.com |
| ffôn | 01766 513709 |
| cyfeiriad | Tawelfan<br>29 Maes Gerddi<br>Porthmadog<br>Ll49 9LE |

# Cyfarfodydd

Rydym wedi ymateb i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) a basiwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2020 o ganlyniad i bandemig Covid-19 i alluogi Cynghorau Cymuned a Thref i gwrdd o bell er mwyn parhau â'n gwaith yng ngoleuni'r cloi a gwaharddiad yn cael ei roi ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Gwnaed trefniadau priodol i allu parhau â'n busnes drwy gyfarfod o bell yn 2020-21

Oherwydd bod y cyfyngiadau wedi llacio bellach mae cyfarfodydd Rheolaidd y Pwyllgor Llawn y Cyngor ers Medi 2021 yn rhai hybrid - yn Ystafell Glaslyn, Y Ganolfan ac ar Microsoft Teams. Cynhelir y cyfarfodydd am 19.00 ar ail nos Fawrth o bob mis. Cynhelir y cyfarfodydd yn Gymraeg. Mae pob cyfarfod yn cael ei recordio gan y Clerc ar Microsoft Teams.

Mae croeso i'r cyhoedd fynychu a gadael i'r Clerc wybod os oes angen darpar cyfieithu. Ni chynhelir cyfarfod ym mis Awst.

Cyhoeddir Rhaglen pob cyfarfod ar wefan y Cyngor.

http://www.cyngortrefporthmadog.org


Cyhoeddir Cofnodion Drafft pob cyfarfod ar y wefan o fewn 7 diwrnod wedi'r cyfarfod a'r Cofnodion Terfynol wedi iddynt gael eu cymeradwyo yn y cyfarfod dilynol. Cynhelir cyfarfod o'r Is-Bwyllgor Eiddo a Cyllid a Datblygu 4 gwaith y flwyddyn yn yr Ystafell Groeso yn Y Ganolfan.

# Gwefan Cyngor Tref Porthmadog

http://www.cyngortrefporthmadog.org

Ar y wefan ceir gwybodaeth am y Cyngor Tref sydd yn cynnwys aelodaeth, rhaglenni cyfarfodydd, cofnodion, dogfennaeth a chyfrifon y Cyngor.

Ers mis Mawrth 2023 mae gan Gyngor Tref Porthmadog dudalen Facebook lle rhennir gwybodaeth berthnasol i drigolion Porthmadog a’r ardal.




# Aelodaeth allanol

Mae’r Cyngor Tref yn aelod o Un Llais Cymru, sef y prif gorff ar gyfer Cynghorau cymuned a thref Cymru. Mae aelodaeth o Un Llais Cymru yn cynnwys mynediad i gyngor cyfreithiol, hyfforddiant, cyngor ar bolisïau, gwybodaeth o’r Cynulliad a chyngor ar wella darpariaeth a gwasanaethau’r Cyngor. Mae’r Clerc yn aelod o Gymdeithas y Clercod SLCC ac yn manteisio ar ohebiaeth a hyfforddiant ganddynt.

Mae gan y Cyngor Tref gynrychiolaeth ar y canlynol :-

- Is Bwyllgor Harbwr Porthmadog
- Ymddiriedolaeth Rebecca

- Y Ganolfan
- Amgueddfa Forwrol Porthmadog
- Clwb Chwaraeon Madog
- Caru Port
- Pwyllgor Efeillio
- Pwyllgor Ardal Arfon  Dwyfor (Un Llais Cymru)

# Atebolrwydd.

Mae gofyn i Gynghorwyr ddatgan unrhyw ddiddordeb ar eitem i'w drafod ar gychwyn bob cyfarfod. Bydd hyn yn cael ei nodi yn y cofnodion. Mae'r cyfrifon yn cael eu rheoli gan y Clerc sydd hefyd yn Swyddog Ariannol Cyngor Tref Porthmadog. Cyngor Gwynedd sydd yn cynnal archwiliad mewnol o'r cyfrifon a Llywodreath Cymru yr archwiliad allanol ar ran Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd Is-Bwyllgor Cyllid Cyngor Tref Porthmadog yn sicrhau cywirdeb a safon rheolaeth y cyfrifon.

# Cyllid a Gwariant

Mae'r gyllideb yn cael ei gosod yn flynyddol ac yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn. Bydd adolygu trwy'r flwyddyn gan y Cyngor a'r Is-Bwyllgor Cyllid gydag adroddiadau rheolaidd gan y Clerc. Y Praesept yw prif ffynhonnell ariannol y Cyngor. Mae gosod y Praesept yn broses sydd yn cymryd i ystyriaeth costau tebygol y Cyngor ac unrhyw brosiectau sydd yn arwain at benderfyniad maint y Praesept.

Ceir Archwiliad Blynyddol o holl agweddau o weithgareddau ariannol y Cyngor Tref. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol ( y Clerc) yn paratoi'r Ffurflen Flynyddol a dogfennau perthnasol ar gyfer Archwiliad Mewnol gan swyddogion Adran Cyllid Cyngor Gwynedd yn gyntaf, cyn trosglwyddo'r dogfennau i law'r Archwilydd Archwiliadau Cynghorau Cymuned yn swyddfa Archwilio Cymru yng Nghaerdydd. Bydd canfyddiadau'r Archwiliad terfynol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor Tref ac ar hysbysfwrdd y Cyngor Tref er mwyn tryloywder. Cyhoeddir dyddiadau hefyd pan fydd y dogfennau ar gael i aelodau o'r cyhoedd ddod i'w harchwilio.

# MANTOLEN 2023-2024

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **CYNGOR TREF PORTHMADOG** | | | | |
| **MANTOLEN GWARIANT INCWM HYD AT 31.3.2023** | **HYD AT 31.3.24** | | | |
| | | | | |
| **Incwm** | | | **YN Y BANC 1.4.23** | |
| | | | Cyfrif Cyfredol | £ 22,589.15 |
| Praesept | £ 62,581.43 | | Sieciau heb eu cyflwyno | £ 2,178.40 |
| Ad-daliad TAW | £ 6,471.61 | | | £ 20,410.75 |
| CaePawb | £ 1,060.00 | | Cyfrif Cadw | £ 34,086.30 |
| Llog Banc | £ 603.06 | | | |
| Incwm meysydd parcio 2022 | £ 17,983.79 | | | |
| Incwm meysydd parcio 2023 | £ 9,947.44 | | Cyfanswm | **£ 54,497.05** |
| Tâl arolwg Cae Bodawen N.Grid | £ 1,000.00 | | | |
| ad-daliad calendars adfent | £ 129.00 | | | |
| | | | | |
| | **£ 99,776.33** | | | |
| | | | **yn y banc 31.3.24** | |
| **Gwariant** | | | Cyfrif Cyfredol | £ 59,635.84 |
| | | | Sieciau heb eu cyflwyno | £ 997.23 |
| Costau gweinyddol | £ 10,648.96 | | | £ 58,638.61 |
| Cyflog y Clerc | £ 15,071.12 | | Cyfrif Cadw | £ 34,689.36 |
| Nadolig | £ 13,279.70 | | | |
| Cyfraniadau A137 | | | | |
| Cyfraniadau A145 | £ 5,750.00 | | Cyfanswm | **£ 93,327.97** |
| Cae Pawb | £ 1,675.44 | | | |
| Parciau a mannau agored | £ 14,520.19 | | | |
| | | | | |
| | **£ 60,945.41** | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| **Incwm ar ôl gwariant** | **£ 38,830.92** | | **Cynnydd mewn balans** | **£ 38,830.92** |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | Marian Roberts | |
| | | | 31.3.24 | |
| | | | | |
| | | | | |

# Ffurflen Flynyddol Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2024

## Datganiadau cyfrifyddu 2023 – 2024 ar gyfer :-

**CYNGOR TREF PORTHMADOG**

| | Diwedd y flwyddyn | | Nodiadau ac arweiniad |
|---|---|---|---|
| | **31 Mawrth 2023 (£)** | **31 Mawrth 2024 (£)** | **Dylech dalgrynnu'r holl ffigyrau i'r £ agosaf.** **Peidiwch â gadael unrhyw flychau yn wag gan gofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigwr fod yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol.** |
| **Datganiad o incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau** | | | |
| **1.** 1. Balansau a ddygwyd ymlaen | 64,407 | 54,497 | Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â llinell 7 y flwyddyn flaenorol. |
| **2.** (+)Incwm o drethiant lleol/ardoll | 62,581 | 62,581 | Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadwy yn ystod y flwyddyn o drethiant lleol (praesept) neu ardoll/cyfraniad gan brif gyrff. |
| **3.** (+) Cyfanswm derbynebau eraill | 33,387 | 37,195 | Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn y symiau a gynhwysir yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a refeniw. |
| **4.** (-) Costau staff | 12,669 | 15,071 | Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob gweithiwr cyflogedig ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, lwfansau trethadwy, TWE ac Yswiriant Gwladol (cyflogeion a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a chostau terfynu. Eithriwch adalu mân dreuliau. |
| **5.** (-) Llog ar fenthyciadau/ addaliadau cyfalaf | 0 | 0 | Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyca allanol (os o gwbl). |
| **6.** (-) Cyfanswm taliadau eraill | 93,449 | 45,874 | Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn costau staff (llinell 4) a llog ar fenthyciadau/addaliadau cyfalaf (llinell 5). |
| **7.** (=) Balansau yn cael eu cario ymlaen | 54,257 | 93,328 | Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) – (4+5+6). |
| **Datganiad o falansau** | | | |
| **8.** (+) Dyledwyr | 0 | 0 | **Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Rhowch werth dyledion sy'n ddyledus i'r corff ar ddiwedd y flwyddyn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **9.** (+) Cyfanswm arian a buddsoddiadau | 54,257 | 93,328 | **Yr holl gyfrifon:** Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol ac adnau, daliadau arian parod a buddsoddiadau a ddelir ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn gytuno â'r balans llyfr arian parod wedi'i gymodi yn unol â'r cymod banc. |
| **10.** (-) Credydwyr | 0 | 0 | **Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Rhowch werth yr arian sy'n ddyledus gan y corff (ac eithrio benthyca) ar ddiwedd y flwyddyn. |
| **11.** (=) Balansau yn cael eu cario ymlaen | 54,257 | 93,328 | **Dylai cyfanswm balansau gydradd llinell 7 uchod:** Rhowch gyfanswm (8 + 9-10). |
| **12.** Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor | 33,443 | 35,894 | Gwerth cofrestr asedau a buddsoddiad yr holl asedau sefydlog ac unrhyw asedau hirdymor eraill a ddelir ar 31 Mawrth. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **13.** Cyfanswm benthyca | 0 | 0 | Y balans cyfalaf sy'n weddill ar 31 Mawrth o'r holl fenthyciadau gan drydydd partïon (gan gynnwys PWLB). |

# Cyfraniadau 2023 – 2024

Ym mis Ionawr bob blwyddyn gwahoddir elusennau, cymdeithasau, mudiadau a chlybiau lleol i wneud ceisiadau am nawdd ariannol gan y Cyngor Tref. Trafodir pob cais yn unigol fel arfer yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror ond bu oedi eleni a ni thrafodwyd tan fis Mawrth 2024 a ni thalwyd yr arian tan fis Ebrill 2024. Golyga hyn na wnaethpwyd yr un cyfraniad A137 na A19 allan o gyllideb 2023-2024.

Gwnaethpwyd cyfraniadau A145 fel a ganlyn :-

- Apêl Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd £5,000.00
- Talu am logi'r Ganolfan ar gyfer y Clwb Ieuenctid £ 750.00

# Materion Polisi

Mae’r Dogfennau a’r Polisïau’r canlynol yn cael eu hadolygu yn flynyddol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol pob mis Mai.

- Rheolau Sefydlog
- Rheolau Ariannol
- Côd Ymddygiad
- Archwiliad Mewnol y Cyngor
- Asesiadau Risg
- Cofrestr Asedau
- Polisi Cynllunio
- Polisi di-bapur
- Polisi Iaith
- Polisi Datganiadau i’r Wasg
- Polisi Hyfforddiant

# Codi materion gyda Chyngor Gwynedd ac asiantaethau eraill

Mae Cyngor Tref Porthmadog yn croesawu cyfraniad y cyhoedd trwy dderbyn ac ymateb i lythyrau neu ebyst ganddynt. Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio rydym wedi llwyddo i gyfeirio eu pryderon am y materion canlynol ac wedi llwyddo i weithredu i geisio datrys y problemau wrth gyfeirio’r materion at Gyngor Gwynedd neu at asiantaethau perthnasol eraill.

- ➢ Graeanu
- ➢ Cyflwr ffyrdd
- ➢ Llochesi bws
- ➢ Cyflwr llwybrau
- ➢ Cyflwr adeiladau hanesyddol
- ➢ Problem gwylanod



Fel pob tref glan y môr, mae Porthmadog yn dioddef o heidiau o wylanod dros dymor yr Haf. Mae’r Cyngor Tref wedi cyflogi hebogwr am yr ail flwyddyn yn olynnol er mwyn ceisio rhwystro’r gwylanod rhag nythu ar ben toeau strydoedd Porthmadog. Dyma’r  hebogwr, John Parry Evans, wrth ei waith ar strydoedd cefn Porthmadog.

Mae’r Cyngor hefyd wedi llythyru Aelodau Seneddol, Aelodau’r Cynulliad, Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ynglyn â materion mwy eang megis :-

- diffyg tai fforddiadwy lleol
- ail gartrefi
- carthffosiaeth
- perygl llifogydd
- tirlithriadau

Dyma rai o weithwyr Cyfoeth Naturiol Cymru wrth eu gwaith yn clirio’r Cyt ac yn monitro tyfiant “Japanese Knotweed”.







Mae’r Cyngor Tref yn ceisio meithrin perthynas dda gydag asiantaethau cyhoeddus a swyddogion Cyngor Sir Gwynedd. Mae llawer o waith y Cyngor Tref yn dibynnu ar gydweithrediad da gyda swyddogion Cyngor Gwynedd. Mae’r swyddogion yma yn barod iawn i roi eu hamser i ddod i ymweld â chyfarfodydd y Cyngor Tref pan fo’r galw.

( Gweler gwefan y Cyngor Tref am gofnodion llawn o’r cyfarfodydd uchod.)

# Clwb Ieuenctid

Bu’r Cyngor Tref, ers tro byd, yn trafod y posibilrwydd o ail-sefydlu Clwb Ieuenctid Porthmadog. Yn dilyn trafodaethau penderfynwyd y byddai’r Cyngor Tref yn ariannu llogi lleoliad newydd i’r Clwb yn Y Ganolfan, Porthmadog. Trwy gydlynu efo Nia Heledd Rees, Gweithiwr Cymorth Ieuenctid Dalgylch Ysgolion Eifionydd ac Ardudwy llwyddwyd i drefnu cynnal Clwb Ieuenctid yn wythnosol i bobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed.
Trefnwyd rhaglen o weithgareddau rhwng mis Hydref 2023 a gwyliau’r Pasg 2024. Cafwyd ystod eang iawn o weithgareddau amrywiol megis :-
Karaoke; gemau bwrdd; chwaraeon; Parti Nadolig.

Cafwyd hefyd ymweliadau gan Big ideas Wales; Ffa Da o Llandanwg yn dangos y bobl ifanc sut i wneud coffi fel barista; yr Urdd yn dod i wneud sesiwn efo Ukaleles; Gaming Van; Cyrco Arts yn dysgu sgiliau syrcas; a gorffen yn ystod gŵyl llesiant y gwasanaeth Ieuenctid efo noson golchi ceir er mwyn codi arian at elusen.

Bu’r Clwb Ieuenctid yn llwyddiannus iawn a profodd i fod yn boblogaidd iawn gyda’r bobl ifanc. Mae’r Cyngor Tref yn parhau o ariannu llogi’r Ganolfan ar gyfer y Clwb Ieuenctid rhwng mis Medi â gwyliau’r Pasg bob blwyddyn.

# Premier Inn

Ar hen safle Ffowndri Britannia a’r hen Swyddfa Dreth, Tŷ Moelwyn, fe adeiladwyd gwesty Premier Inn newydd. Mae mewn lleoliad bendigedig rhwng y môr a’r mynydd gyda golygfeydd godidog dros y Traeth Mawr ac allan dros Fae Ceredigion. Mae 80 o ystafelloedd yn y gwesty ac mae wedi creu gwaith i lawer o bobl lleol. Fe agorodd y gwesty yn swyddogol ym mis Mehefin 2022 ond cyn hynny fel arwydd o ewyllys da fe wahoddwyd aelodau’r Cyngor Tref i’r gwesty ar Fehefin 3 2022 i gael brecwast yn eu bwyty.
Mae’r Cyngor Tref yn ddiolchgar iawn i reolwyr y gwesty am gytuno i gais y Cyngor i osod plac llechen oedd yn dynodi agoriad swyddogol Tŷ Moelwyn yn 1977. Cytunodd y gwesty i gadw’r plac ac mae wedi cael ei osod wrth y fynedfa.





# Ceisiadau Cynllunio

Bydd y Cyngor Tref yn trafod pob Cais Cynllunio a dderbynir gan Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd yn eu cyfarfodydd ac yn mynegi eu barn fel corff er mwyn adrodd yn ôl i’r Adran Gynllunio ar unrhyw sylw, amod neu wrthwynebiad i Gais Cynllunio. Bydd y Clerc yn ebostio manylion pob Cais at y Cynghorwyr fel y cânt ddigon o amser i astudio manylion y cais cyn y cyfarfod er mwyn dod i benderfyniad arno. Hysbysir yr Adran Gynllunio o benderfyniad y Cyngor a chyhoeddir penderfyniad y Cyngor ar y cais yng nghofnodion y cyfarfod.
Ar adegau pan fydd y cais wedi cyrraedd y Clerc yn rhy hwyr i’w gynnwys yn y rhaglen ac i gael ei drafod mewn cyfarfod yna bydd y Cynghorwyr yn ymateb yn unigol i’r Cais Cynllunio yn uniongyrchol i’r Adran Gynllunio.

Trafodwyd a daethpwyd i benderfyniad ar 34 Cais Cynllunio rhwng Mai 2023 a Mai 2024

# Diffibrilwyr

Fe arianodd y Cyngor Tref 2 Ddiffibriliwr allan o gyllideb A19 Llesiant ar gyfer 2 safle yn y flwyddyn ariannol 2020-2021. Gosodwyd un ar wal allanol Meithrinfa Hen Ysgol a'r llall ar wal allanol siop Lidl. Eleni mae'r Cyngor Tref wedi cydweithio gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans i lunio rhestr o leoliad pob diffibriliwr yn nalgylch y Cyngor Tref ac wedi cyhoeddi'r rhestr yn y papur Bro lleol, Yr Wylan. Ceir copi ohono hefyd yn hysbysfwrdd y Cyngor ac ar wefan y Cyngor.






Ym mis Medi a Hydref 2022 derbyniodd y Cyngor Tref 3 Diffibriliwr newydd trwy gynllun Save a Life y Gwasanaeth Ambiwlans. Rhoddwyd un yn lle'r un oedd y tu allan i'r Swyddfa Bost ; un ar wal allanol Canolfan Morfa Bychan ; ac un ar safle cartrefi Cerrig yr Afon. Ceir rhestr manwl o holl ddiffibrilwyr ardal Porthmadog ar wefan y Cyngor Tref. Mae'r diffibrilwyr sydd yng ngofal Cyngor Tref Porthmadog wedi cael eu cofrestru gyda The Circuit, BHF a bydd y Clerc yn eu monitro yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn barod i'w defnyddio mewn argyfwng. Y Cyngor Tref sydd yn darparu padiau a batris newydd i'r Diffibrilwyr pan fo'r angen.

# Gweithgor datblygu

Ym mis Gorffennaf 2021 daeth criw bychan o'r Cyngor Tref at ei gilydd i ffurfio Gweithgor Datblygu. Prif amcan y grŵp oedd penderfynu ar brosiectau i wella cyfleusterau ac edrychiad cyffredinol yr ardal trwy wneud defnydd o'r arian sydd wrth gefn a'r incwm meysydd parcio. Mae Porthmadog bellach yn rhan o Safleoedd Treftadaeth y Byd, UNESCO a rhagwelir derbyn grantiau ychwanegol yn sgil hyn y gellir eu defnyddio i hwyluso gwaith y Gweithgor Datblygu.

Mae'r Gweithgor eisoes wedi trefnu i gael arwydd newydd i Gae Chwarae Bodawen ac wedi comisiynu 2 fwrdd gwybodaeth am adar gan arlunydd lleol i'w gosod ar lwybr cerdded y Cob Crwn. Gobeithir yn y dyfodol agos medru

gweithredu i wella ardal Pencei, gosod arwyddbyst newydd o gwmpas y dref a chyhoeddi pamffled a map o'r dref.
Erbyn Medi 2022 roedd y 2 fwrdd gwybodaeth yn eu lle ar y Cob Crwn – un yn wynebu'r Llyn Bach a'r llall yn edrych allan dros y Traeth Mawr. Fe'u cynllunwyd gan artist lleol, Ffion Gwyn.

Mae'r Gweithgor Datblygu bellach wedi ei ddiddymu ac mae materion sy'n ymwneud â gwelliannau o fewn y dref bellach yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd yr Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo. Mae'n fwriad gan y Cyngor Tref i gomisiynu 2 fwrdd gwybodaeth arall gan Ffion Gwyn – un wrth ymyl cerflun Madocks a'r llall ar ffordd y Garth. Rydym yn disgwyl clywed os caniateir hyn gan Gyngor Gwynedd.






Yn 2022 prynwyd 5 planter blodau – 3 ar gyfer Porthmadog a 2 ar gyfer Tremadog. Maent yn cael eu cynnal a'u llenwi'n rheolaidd gan ganolfan arddio lleol, Gardencraft.







# Plannu Coed

Mae'r Cyngor Tref  wedi cyfarfod â Swyddog Bioamrywiaeth, Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd i drafod y posibilrwydd o wneud cais am nawdd i  blannu coed ar safle Cae Chwarae Bodawen. Daeth hyn yn sgil trafod cynllun Llywodraeth Cymru, Coedwig Genedlaethol i Gymru mewn cyfarfod blaenorol o'r Cyngor Tref.  Derbyniwyd nawdd gan Gronfa Gymunedol Partneriaeth Natur Gwynedd i blannu coed a chynyddu ardaloedd o flodau gwyllt er budd peillwyr mewn mannau ar gae Chwarae Bodawen. Mae'r gronfa yn annog sefydliadau cyhoeddus neu wirfoddol o fewn y Sir i hyrwyddo yr amrediad eang o gynefinoedd amrywiol sydd gennym er budd bio-amrywiaeth.

Yn 2022 derbyniwyd dros gant o goed am ddim gan y Woodland Trust ac ym mis Tachwedd 2022 bu plant ysgolion cynradd yr ardal yn plannu coed ar

ochr orllewinol Cae Bodawen. Bu Mr John Hywyn Williams, Cydlynydd Partneriaeth Natur Lleol Gwynedd  a Mr Jack Walmsley, Swyddog Bioamrywiaeth  Cyngor Gwynedd yn goruchwulio'r plannu.
Dyma adroddiad o wefan Cyngor Gwynedd :-

## *Cyngor Gwynedd yn cefnogi plant Porthmadog i blannu*

**Dyddiad: 28/11/2022**







" Mae plant ysgol lleol wedi plannu mwy na 150 o goed ar gae chwarae ym Mhorthmadog er budd yr amgylchedd a chynefinoedd gwyllt.

Diolch i bartneriaeth rhwng Gyngor Gwynedd a Chyngor Tref Porthmadog, mae cenhedlaeth ifanc yr ardal wedi gallu gwneud rhywbeth 'go iawn' i geisio mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ar gyfnod amserol, sef yn ystod Wythnos Hinsawdd Cymru ac ar gynffon cyfarfod COP27 yn yr Aifft.

Mae Cyngor Tref Porthmadog wedi clustnodi rhan helaeth o gae Bodawen ar gyfer y cynllun. Mae mewn man amlwg i bobl sy'n teithio i fewn ac heibio'r dref, sef ger y gylchfan ble saif Cerrig yr Orsedd o Eisteddfod Genedlaethol 1987.

Bydd y llecyn yn cael ei reoli er budd natur i'r dyfodol – yn ogystal a'r 150 o goed cynhenid sydd wedi eu plannu mae cynlluniau ar gyfer perllan gymunedol gyda tua 40 o goed ffrwyth a dôl o flodau gwyllt sylweddol ei maint.

Dywedodd Hywyn Williams, Swyddog Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd: "Diolch o galon i ddisgyblion a staff ysgolion Eifion Wyn, Borth-y-Gest a'r Gorlan am fod mor barod i ddangos bôn braich a chyfrannu cymaint i'r prosiect.

"Mae hwn wedi bod yn weithgaredd gwerth chweil a dwi'n gobeithio fod y plant wedi mwynhau ac wedi dysgu am bwysigrwydd gwarchod a hybu cynefinoedd ac amrywiaeth mewn bywyd gwyllt."

Ychwanegodd y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros yr Amgylchedd: "Mae'n wych gweld y genhedlaeth ifanc yn cael y cyfle i ddysgu a chyfrannu fel hyn, ac mae'n niolch yn fawr i'r Cyngor Tref am eu gweledigaeth a'u brwdfrydedd tuag at y cynllun ar gae Bodawen.

“Efallai fod llawer ohonom yn teimlo rhwystredigaeth o’r holl siarad fu yn y COP27 felly mae cyfraniadau bychan fel hyn yn bwysig wrth i ni gyd ystyried ein cyfrifoldebau yng nghyd-destun newid hinsawdd.” “

Yn ogystal â hyn llwyddodd y Cyngor Tref i sicrhau derbyn grant o £6,600.00 gan Bartneriaeth Natur Lleol Gwynedd 2022-23 i ariannu :-

1. Scariffio llain o dir yn hanner orllewinol Cae Chwarae Bodawen a hadu carped o flodau gwyllt arno. Byddai’r llecyn yma wedyn yn cael llonydd i dyfu heb yr angen arferol i dorri gwair ac yn cynnig gwledd i’r synhwyrau i bawb sydd yn mynd i mewn ac allan o’r cae, yn ogystal â chreu ardal ar gyfer hyrwyddo tirweddau a rhywogaethau er budd peillwyr a chynyddu bioamrywiaeth.
2. Creu llwybr cerdded igam ogam drwy ganol y maes blodau.
3. Plannu 24 o goed afal, gellyg ac eirin ar hyd ochr ddeheuol y safle gyda “stakes and ties”.



# Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023




Bu cryn edrych ymlaen i ddyfodiad yr Eisteddfod i Foduan ers cyhoeddi y byddai'r Eisteddfod yn cael ei chynnal yno yn 2021. Siom o'r mwyaf felly oedd gorfod gohirio popeth pan ddaeth yr aflwydd Cofid. Er hyn, llwyddwyd i gynnal yr Eisteddfod ym Moduan yn Awst 2023. Cafwyd prysurdeb garw ymhob ardal gyda phawb am y gorau i godi arian i'r Pwyllgor Apêl lleol er mwyn sicrhau llwyddiant yr Ŵyl. Llwyddodd Pwyllgor Apêl Porthmadog i gyrraedd y targed o £50,000 ac fe gyfranodd y Cyngor Tref yn hael tuag at y coffrau dros gyfnod o bedair blynedd.

Yn ogystal â chodi arian ar gyfer yr Eisteddfod gwelwyd pob tref a phentref ym mro'r Eisteddfod a thu hwnt yn mynd ati o ddifri i addurno er mwyn croesawu'r Eisteddfod a'r Eisteddfodwyr i'r ardal. Fe brynodd y Cyngor Tref bolyn fflag a baner y Ddraig Goch i fusnesau ar hyd Stryd Fawr Porthmadog ; vinyls i groesawu'r Eisteddfod ar drofan Bodawen ac ar y ffordd i mewn dros y Cob wrth ymyl Premier Inn. Bu ysgolion lleol yn peintio baneri i'w gosod ar drofan Bodawen a gwelwyd amrywiaeth o waith celf yma ac acw yn y dref a'r cyffiniau.

Dyma rai ohonynt :-










SIOP COFFI T.H.
freshfields




Porth i Angor
Porthmadog


EISTEDDFOD
EISTEDDFOD
17 MILLTIR
YSGOL
Y GORLAN


BODUAN
17 MILLTIR


17
MILLTIR
BODUAN

# Cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Rhagwelir cyfnod prysur yn hanes tref Porthmadog yn y blynyddoedd i ddod oherwydd bod 3 cynllun adfywio ar y gweill :-

## 1. Cynllun Creu Lleoedd

Fel rhan o faes gwaith Adfywio Canol Trefi Gwynedd ar ddechrau blwyddyn 2023 cafwyd cyfres o gyfarfodydd a gweithdai rhwng swyddogion Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd ac aelodau o'r Cyngor Tref ac asiantaethau eraill gyda'r bwriad o lunio Cynllun Creu Lleoedd ar gyfer Porthmadog. Rhoddwyd cytundeb i gwmni Savills i lunio'r cynllun a chynhaliwyd ymweliad safle ar Hydref 9 2023 gyda rhai o swyddogion Savills, aelodau o'r Cyngor Tref ac aelodau o Gyngor Gwynedd er mwyn adnabod anghenion tref Porthmadog. Yn ystod yr ymweliad cafodd y Cyngor Tref gyfle i ddangos swyddogion Savills o gwmpas y dref gan ganolbwyntio ar yr ardaloedd sydd angen eu datblygu a'u hadfywio.

Mae'r Cyngor Tref yn gyffrous iawn ynglyn â'r cynllun ac yn gwerthfawrogi pob ymdrech i wella edrychiad y dref yn ogystal â chyfleusterau'r dref ar gyfer ei thrigolion. Yn Chwefror 2024 fe gyhoeddodd Cyngor Gwynedd y ddogfen gynhwysfawr Cynllun Creu Lleoedd ar gyfer Porthmadog. Ceir ynddi astudiaeth manwl iawn o ystyriaethau ac oblygiadau cymdeithasol ac economaidd y cynllun.

Dyma ychydig o gynnwys Cyflwyniad y ddogfen :-

" Mae Cyngor Gwynedd wedi comisiynu Savills i sefydlu'r blaenoriaethau strategol a chyflwynoweledigaeth derfynol i arwain adfywiad canol tref Porthmadog.Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n bennaf ar ganol y dref, sy'n estyn o'r Harbwr i'r gorllewin tuag at y Stryd Fawr i'r Hen Coliseum, wrth gydnabod pwysigrwydd, ac yn ymgysylltu'r dref a'r ardal ehangach.

Creu lleoedd

Mae Creu Lleoedd yn ddull o gyfansoddi cynlluniau trefol, sy'n cynnwys barn a syniadau'r gymuned yn y broses o gynllunio, dylunio trefol a rheoli lleoedd. Mae creu lleoedd yn rhan greiddiol o ddull Llywodraeth Cymru o gefnogi ardaloedd trefol, a dywedodd Llywodraeth Cymru yn y Datganiad Sefyllfa Ganol Trefi, y bydd cyllid adfywio'n cael ei dargedu at drefi sydd

â chynllun mewn lle. Mae'r dull hefyd yn cael ei gydnabod fel ffordd bwysig o gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol a osodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae creu lleoedd yn cael ei ddiffinio gan Lywodraeth Cymru fel "dull cyfannol o gynllunio a dylunio datblygiadau a gofodau, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau cadarnhaol. Mae'n tynnu ar botensial ardal i greu datblygiad o ansawdd uchel a mannau cyhoeddus sy'n hybu ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl yn yr ystyr ehangaf". Er mwyn cyflawni'r canlyniadau lleol, cadarnhaol hyn, mae Comisiwn Dylunio Cymru (CDC) yn eiriol dros "weithio ar y cyd ar draws sectorau a disgyblaethau i roi ystyriaeth gynhwysfawr i ddatblygiad lleoedd nodedig a bywiog yn y dyfodol". Golyga hyn eu bod nhw'n cyflawni amrywiaeth o themâu allweddol ar yr un pryd
- mae'r themâu wedi'u nodi gan 'Siarter Lleoedd Cymru' fel pobl a chymuned, lleoliad , parth cyhoeddus, hunaniaeth, symudiad, a chymysgedd o ddefnyddiau.

Mae'r broses o greu lleoedd da yn golygu'r angen i ddatblygu dealltwriaeth fanwl o'r gweithgareddau sy'n cymrud rhan yn yr ardal, ffurfiant ac ystyr lle, ac yna adeiladu ar y cydrannau hyn i gyflwyno datblygiad newydd, gwneud gwelliannau i leoedd presennol neu ymyriadau megis digwyddiadau sy'n helpu i greu gweithgaredd mewn gofod. Mae CDC yn diffinio'r tair cydran fel a ganlyn:

- 'Gweithgaredd – Y gweithgareddau sy'n digwydd yn y lle a gefnogir gan ddefnyddiau tir, symudiadau cerddwyr a beicwyr, bywyd cymdeithasol o fewn y parth cyhoeddus a'r digwyddiadau o fewn y dref.
- Ffurf – Y nodweddion ffisegol sy'n rhan o'r lle gan gynnwys y treflun, y ffurfiant adeiledig, y dirwedd, topograffeg, ecoleg, microhinsawdd a'r tir cyhoeddus.
- Ystyr – Nodweddion sy'n unigryw i'r lle, gan gynnwys y cyd-destun, hunaniaeth a'r ymdeimlad unigryw o le, y nodweddion adeiledig a naturiol arwyddocaol, cysylltiadau diwylliannol, profiadau synhwyraidd, diogelwch a chynhwysiant a'r ymdeimlad o berthyn.'

Safleoedd Allweddol

Mewn adolygiad o gynlluniau lleol blaenorol Porthmadog (Cynllun Adfywio Ardal 2007 a Chynllun Gweithredu 2014), nodwyd tri safle diffiniedig yng nghanol y dref fel safleoedd cyfle allweddol:

1. Harbwr Porthmadog a Sgwâr Pen Cei
2. Parc y Dref
3. Safle'r Hen Coliseum

Ers y cynlluniau blaenorol, mae Sinema'r Coliseum wedi'i ddymchwel ac mae'r safle'n wag ar hyn o bryd, sydd nawr yn cael ei hystyried gan y Bwrdd Iechyd fel safle posibl ar gyfer canolfan iechyd newydd. Mae Parc y Dref a'r Harbwr yn parhau'n ddigyfnewid. Mae'r cyfleoedd a amlygwyd mewn cynlluniau

blaenorol i wella cyfleusterau chwarae, hyrwyddo treftadaeth, a thir cyhoeddus y ddau safle, dal yn berthnasol.
Mae’r Cynllun yn canolbwyntio ar y safleoedd yma, ac yn y Dadansoddiad Opsiynau, mae’n cyflwyno dau safle ychwanegol, sef:
• Maes Parcio DWP
• Cob Crwn
Mae'r pum safle hyn yn cyflwyno cyfleoedd gofodol allweddol i Borthmadog, ac mae gan ymyriadau safle-benodol wedi'u targedu'r potensial i gyflwyno buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sylweddol i'r dref. “

## 2. Be nesa Port?

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar 9.3.2024 mae cynlluniau ar y gweill gan Adran Cymunedau Cyngor Gwynedd dan arweiniad Gareth Thomas, Haydn Jones a Ffion Gwyn i sefydlu menter gymunedol ym Mhorthmadog. Dim ond megis dechrau mae’r trafodaethau i geisio adnabod problem sydd angen ei datrys neu gyfleoedd i sefydlu busnes a allai fod yn hwb i’r ardal leol yn ogystal â chreu busnes fyddai’n gallu cyflogi ac ysbrydoli pobl leol. Gobeithir medru cynnig cyfle i ddatblygu talentau pobl ifanc yr ardal a chyfle iddynt gyfrannu at lwyddiant y fenter hon.

## 3. Llewyrch o’r Llechi

Mae Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd yn gweithredu amryw o gynlluniau ar draws y dyffrynnoedd llechi o dan faner ***Llewyrch o’r Llechi*** trwy gyllid Cronfa Ffyniant Bro a Chronfa Ffyniant Gyffredin. Mae’r cynllun yn rhan o raglen *‘Llewyrch o’r Llechi’*, ble mae Cyngor Gwynedd wedi sicrhau £18miliwn o gyllid Llywodraeth Prydain i ddatblygu a gweithredu cynlluniau i adfywio dyffrynnoedd llechi Gwynedd ac i ddathlu treftadaeth gyfoethog yr ardal a’u dynodiad yn Safle Treftadaeth y Byd. Ariennir y cynllun hwn yn llawn trwy gronfeydd Ffyniant Bro a Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol.
Bydd arian yn cael ei roi i gomisiynu 4 darn o waith celf cyhoeddus sy’n dehongli y dreftadaeth llechi lleol ac yn dathlu hanes gyfoethog Porthmadog

Mae cyfleoedd i artistiaid weithio yn y cymunedau yma bellach yn agored a disgwylir i artistiad lleol gyflwyno tendr am y comisiwn i greu’r gwaith celf. Mae’r cyfleoedd wedi eu hysbysebu ar wefan Gwynedd Greadigol ac ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Llechi Cymru, mae hefyd wedi cael ei gynnwys ym Mwletin Busnes Cyngor Gwynedd wythnos yma.

Mae'r Cyngor Tref yn awyddus iawn i fanteisio ar y cyfle hwn i gynnig lle dyledus i arddangos gwaith celf o safon uchel ac yn edrych ymlaen i ddarganfod pwy fydd yn derbyn y comisiwn ac yn edrych ymlaen hefyd i weld y gwaith wedi ei osod yn ei le.

Bydd Cyngor Tref Porthmadog yn edrych ymlaen i fedru adrodd ar fwy o fanylion am y datblygiadau a'r cynlluniau arfaethedig yma yn Adroddiad Blynyddol 2024-2025.

Marian Roberts
Clerc Cyngor Tref Porthmadog
Mai 2024